# ATODLENNI

## ATODLEN 2

Rheolau cynnal etholiad cynghorwyr ar gyfer prif ardal pan gynhelir y bleidlais ynghyd â phleidlais mewn etholiad perthnasol

## RHAN 4

### Cyfrif y Pleidleisiau a Datgan y Canlyniad mewn Etholiadau lle Ceir Gornest

**Ailgyfrif**

**61.**—(1) Caiff ymgeisydd neu asiant etholiadol yr ymgeisydd, os yw'n bresennol pan fydd y cyfrif wedi ei gwblhau, ofyn i'r swyddog canlyniadau ailgyfrif y pleidleisiau.

(2) Rhaid i'r swyddog canlyniadau gydymffurfio â'r cais oni bai bod y swyddog canlyniadau o'r farn bod y cais yn afresymol.

(3) Ni chaniateir cymryd unrhyw gam pan fo'r cyfrif wedi ei gwblhau nes bod yr ymgeiswyr a'r asiantau etholiadol sy'n bresennol wedi cael cyfle rhesymol i ofyn i'r pleidleisiau gael eu hailgyfrif.

(4) Pan fydd ailgyfrif yn digwydd, mae'r rheol hon hefyd yn gymwys mewn perthynas â'r ailgyfrif (fel y gall yr ymgeisydd neu asiant etholiadol yr ymgeisydd, er enghraifft, os yw'n bresennol pan fydd yr ailgyfrif wedi ei gwblhau, ofyn i'r swyddog canlyniadau ailgyfrif y pleidleisiau).